Mae Tadcu'n Anghenfil Grêfi

Cyn iti fynd yn hŷn
a thyfu'n fawr,
mae 'na stori i'w hadrodd,
felly gwranda di nawr.

Cyfrinach ofnadwy
rhynddot ti a fi:
mae 'na fwystfil dychrynllyd
yn ein teulu ni!

Mae ei wallt gwyn yn dwt
a'i wên yn garedig;
Mae'n gwylio teledu
a phêldroed yn ffanatig.

Ond, nid yw Tadcu'n dadcu
pob awr o bob dydd.
Dere'n agos i glywed
pa ryfeddod sydd.

Mae Tadcu'n anghenfil grêfi:
yr un olaf yn y tir.
Gwylia di amser swper;
Dwi'n dweud yr holl wir.

Mae'n ei arllwys ar gîg iâr,
a physgod a sglodion,
tatws stwmp, cornflakes,
esgidiau a moddion.

Mae'n ei fwyta ar hufen ia,
a'i sugno trwy welltyn.
Mae'n ei roi ar ei frechdan,
ac unwaith ar blentyn!

Os na greda di'r stori,
(Meddwl dwi off fy mhen?)
sylwa di ar ei ffit
pan ddaw'r grêfi i ben.

Bydd yn cwyno a rhuo
a chwifio ei lwy:
"Mae'r cwch grêfi'n wag
a 'dwi isio mwy!"